

Meini prawf ariannu:

Cronfa Fuddsoddi Gymunedol Trivallis

Wedi'i reoli a'i hyrwyddo gan Sefydliad Cymunedol Cymru, mae Cronfa Buddsoddi Cymunedol Trivallis wedi'i chynllunio ar gyfer grwpiau cymunedol cyfansoddedig a sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi pobl yng nghymunedau Trivallis. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dangos yn gryf yr effaith/ effeithiau cadarnhaol y byddant yn eu cael ar y bobl sy'n byw yno.

Rhaid i brosiectau gyfarfod ag o leiaf un o'r themâu canlynol:

- Cynhwysedd Cymdeithasol
- Iechyd a Lles
- Dysgu a Chyflogadwyedd
- Gwelliannau amgylcheddol cynaliadwy

Mae yna dwy ffrwd o arian: Ceisiadau Llwybr Carlam a Cheisiadau Grant Mawr. Cewch ragor o wybodaeth am y ddwy ffrwd isod.

Y Grantiau sydd ar gael

Mae'r Gronfa ar agor i elusennau a sefydliadau cymunedol gyda chyfansoddiad (e.e. cymdeithasau, mentrau cymdeithasol a chlybiau). Gall grwpiau dderbyn hyd at £6,000 mewn unrhyw un flwyddyn h.y. un grant bach (cais Llwybr Carlam) ac un grant mawr.

Ceisiadau Llwybr Carlam dylai ceisiadau o dan £1,000 cael eu cyflwyno gyda'r holl ddogfennau cefnogi. Rydym yn anelu at hysbysu ymgeiswyr Llwybr Carlam o'n penderfyniad o fewn pythefnos o gyflwyno cais.

Ceisiadau Grant Mawr bydd ceisiadau o £1,001 i £5,000 yn mynd at banel gwahanol, ac felly, bydd yr amser targed o benderfynu'n 8 wythnos.

Rydym yn annog pob ymgeisydd Grant Mawr i drefnu sgwrs gyda Swyddog Grantiau am eu prosiect cyn cyflwyno cais. Gall ymgeiswyr drefnu amser i drafod eu syniad prosiect a gwirio cymhwysedd trwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr a all ddangos yn union sut y byddant yn cwrdd ag amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac i'r rhai nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth o'r gronfa hon yn ystod y flwyddyn ymgeisio ddiwethaf.

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

- Grwpiau ar draws Rhondda Cynon Taf, newydd neu wedi'u sefydlu
- Grwpiau gyda chyfansoddiad
- Grwpiau sy'n rhoi rhan i ac yn cynnwys tenantiaid Trivallis
- Prosiectau sy'n cyfarfod ag o leiaf un o themâu ariannu Trivallis

Allwn ni ddim ariannu:

- Unigolion
- Cwmnïau preifat
- Cyrff statudol
- 'Ffrindiau' grwpiau, sy'n cefnogi darpariaeth neu gyfrifoldeb statudol
- Sefydliad nad ydyn nhw'n gyfan gwbl y DU
- Codwyr arian proffesiynol
- Grwpiau'n hyrwyddo cred wleidyddol neu grefyddol

Sut i ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein, y gellir ei chyrchu trwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Cofiwch:

- Rhaid lanlwytho eich dogfennau llywodraethu, eich cyfrifon mwyaf diweddar a'ch polisiau diogelu a chydaddoldeb, amrywiaeth, cynhwysedd diwygiedig.
- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael fel arfer ar gyfer codi arian neu i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.